Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Beca
# Efailwen
# Clunderwen
# Sir Gaerfyrddin
# SA66 7UX

**Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2012**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Iechyd ar Waith – Cyrraedd y Nod – The Corporate Standard – Health at Work

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd – Green Dragon Environmental Standard

Buddsoddwyr Mewn Pobl | Aur

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 08/02/2013**

## Cyd-destun

Mae'r ysgol wledig hon wedi ei lleoli ym mhentref Efailwen yng ngorllewin Sir Gaerfyrddin ar y ffin â Sir Benfro. Mae'n gwasanaethu'r pentref a'r gymdogaeth gyfagos. Mae'r ysgol yn disgrifio'r ardal fel un nad yw'n llewyrchus nac ychwaith o dan anfantais economaidd. Mae gan dri y cant o'r disgyblion hawl i dderbyn cinio di-dâl sy'n sylweddol is na'r ffigwr sirol a chenedlaethol.

Mae 38 o ddisgyblion rhwng tair ac 11 mlwydd oed ar gofrestr yr ysgol. Mae niferoedd y disgyblion wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf. Mae 21% o'r disgyblion yn derbyn cymorth anghenion dysgu ychwanegol sy'n uwch na'r ffigwr sirol a chenedlaethol. Nid oes disgybl â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Mae'r ardal a wasanaethir gan yr ysgol yn ardal draddodiadol Gymraeg ac mae 45% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref. Nid oes disgyblion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol yn yr ysgol ar hyn o bryd.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd ers Ionawr 2009.

Cynhaliwyd yr arolygiad diwethaf ym Medi 2006.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Beca yn 2012-2013 yw £4,074. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin yw £25,997 a'r lleiafswm yw £3,005. Mae Ysgol Beca yn safle 31ain o'r 107 ysgol gynradd yn Sir Gaerfyrddin o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- bod rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol;
- bod y disgyblion yn ymddwyn yn dda iawn ac yn dangos agweddau da tuag at ddysgu;
- bod yr ystod eang o brofiadau a ddarperir yn cyfoethogi dysgu'r disgyblion;
- bod yr addysgu yn dda ar y cyfan;
- bod yr ysgol yn gymuned gynhwysol gydag ethos cartrefol, gofalgar; a
- bod partneriaethau yn cyfrannu'n effeithiol tuag at addysg a lles y disgyblion.

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- bod gan y pennaeth weledigaeth gadarn sydd yn seiliedig ar godi safonau;
- bod tîm o staff addysgu a chynnal ymroddedig;
- bod y gweithdrefnau hunanarfarnu yn dylanwadu'n effeithiol ar y cynllun datblygu;
- bod tystiolaeth o welliant yn ansawdd y ddarpariaeth a safonau cyflawniad; a
- bod y corff llywodraethol yn gweithredu'n effeithiol ac yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad yr ysgol.

## Argymhellion

A1 Cryfhau medrau ysgrifennu disgyblion cyfnod allweddol 2

A2 Gwella'r ddarpariaeth i ymestyn medrau darllen disgyblion ar draws yr ysgol

A3 Sicrhau bod tasgau yn darparu her briodol yn gyson i ddisgyblion

A4 Ehangu'r cyfleoedd i ddisgyblion fyfyrio ar eu cynnydd a chymryd camau i wella safon eu gwaith

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Rhaid trin canlyniadau asesiadau athrawon gyda gofal oherwydd bod y niferoedd bychan o ddisgyblion mewn blwyddyn a'r canran uchel o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gallu effeithio ar berfformiad yr ysgol o un flwyddyn i'r llall.

Yn 2012, mae cyflawniad y disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn uwch na chanlyniadau'r teulu o ysgolion tebyg yn y rhan fwyaf o'r meysydd dysgu. Mae ychydig yn is ym maes iaith, llythrennedd a chyfathrebu. Tros y pedair blynedd diwethaf, mae tuedd clir o wella yn neilliannau disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2. Yn 2012, mae cyflawniad y disgyblion yn uwch na'r teulu o ysgolion tebyg mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth ond yn is mewn Saesneg.

Yn 2012, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r deilliant uwch ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn is na'r teulu o ysgolion yn y rhan fwyaf o'r meysydd. Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae'r canran sy'n cyflawni'r lefelau uwch yn well na chyfartaleddau'r teulu yn y rhan fwyaf o bynciau. Tros y tair blynedd flaenorol, mae'r canran yn gyffredinol is mewn Cymraeg, Saesneg a gwyddoniaeth.

Nid oes patrwm cyson yn y gwahaniaeth rhwng canlyniadau bechgyn a merched er bod merched ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn cyflawni'n well yn gyffredinol na bechgyn, yn arbennig ar y lefelau uwch. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni eu targedau.

Ar draws yr ysgol, mae medrau gwrando'r disgyblion yn dda iawn. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyfathrebu'n hyderus ar lafar yn y Gymraeg wrth drafod eu gwaith ac yn anffurfiol mewn sefyllfaoedd amrywiol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae mwyafrif y disgyblion yn cyfathrebu'n glir yn Saesneg gan ddefnyddio geirfa briodol. Nid yw'r disgyblion yn gyffredinol yn cyfrannu'n ddigon estynedig wrth ateb cwestiynau a mynegi barn.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen yn gywir gan ddefnyddio mynegiant priodol wrth ddarllen ar goedd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae mwyafrif y disgyblion hŷn yn darllen yn ystyrlon yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae medrau darllen disgyblion ar waelod cyfnod allweddol 2 yn fwy anwastad yn arbennig yn y Gymraeg. Yn gyffredinol, nid ydynt yn darllen gyda rhuglder a dealltwriaeth ddigonol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n annibynnol gyda chywirdeb cynyddol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r disgyblion yn ysgrifennu'n briodol i ystod o ddibenion yn y Gymraeg a'r Saesneg. Fodd bynnag, mae gafael mwyafrif y disgyblion ar fedrau sillafu ac atalnodi yn ansicr ac mae eu llawysgrifen yn aml yn flêr. Nid yw'r disgyblion yn gyffredinol yn cynhyrchu digon o ddarnau ysgrifennu estynedig.

Ar draws yr ysgol, mae mwyafrif y disgyblion yn defnyddio eu medrau meddwl a'u medrau ymchwilio yn bwrpasol yn eu gwaith ar draws y pynciau. Maent yn dwyn i

gof eu dysgu blaenorol yn briodol gyda llawer yn defnyddio eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a'u medrau rhif yn effeithiol i gynorthwyo eu dysgu.

**Lles: Da**

Mae'r disgyblion yn hapus ac yn ddiogel yn yr ysgol. Maent yn gwrtais ac yn dangos parch tuag at ei gilydd ac at athrawon. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta'n iach ac o ymarfer y corff yn rheolaidd.

Mae presenoldeb disgyblion dros y tair blynedd diwethaf yn amrywio rhwng y 25% a'r 50% uchaf o'i gymharu ag ysgolion tebyg. Mae'r holl ddisgyblion yn brydlon.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos diddordeb mawr yn eu dysgu. Maent yn cadw ar dasg ac yn cydweithio'n gynhyrchiol ag eraill. Mae'r holl ddisgyblion yn ymddwyn yn dda iawn yn y dosbarth ac o gwmpas yr ysgol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn chwarae rhan weithredol ym mywyd yr ysgol. Mae aelodau o'r cyngor ysgol a'r pwyllgor eco yn meithrin medrau arweinyddiaeth ac yn cyfrannu'n effeithiol at brosesau gwneud penderfyniadau o fewn bywyd yr ysgol.

Mae'r holl ddisgyblion yn ehangu eu medrau cymdeithasol a phersonol yn effeithiol trwy raglen ddyddiol yr ysgol a thrwy gymryd rhan mewn gwasanaethau, cyngherddau a gweithgareddau cymunedol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm eang a chytbwys, sy'n cwrdd â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r Cyfnod Sylfaen. Mae'r athrawon yn cynllunio'n ofalus ac yn darparu ystod eang o weithgareddau dysgu sy'n ennyn diddordeb y disgyblion. Nid yw'r cynllunio tymor byr yn sicrhau bod tasgau bob amser yn cynnig yr her briodol i ddisgyblion.

Mae'r cynlluniau gwaith manwl a chynhwysfawr yn nodi'n glir y cyfleodd i ddatblygu medrau'r disgyblion ond nid yw'r ddarpariaeth yn sicrhau bod medrau ysgrifennu a darllen disgyblion yn datblygu'n gyson.

Cymraeg yw cyfrwng naturiol bywyd a gwaith yr ysgol sy'n hybu hyfedredd dwyieithog y disgyblion yn llwyddiannus. Trwy waith thematig, ymweliadau a chyfleoedd i gystadlu mewn eisteddfodau caiff y disgyblion gyfleoedd da i ddysgu am eu hardal ac am hanes a diwylliant Cymru.

Mae addysg ar gyfer dinasyddiaeth fyd-eang yn gryfder yn yr ysgol. Mae'r cysylltiadau â gwledydd tramor yn paratoi'r disgyblion yn dda ar gyfer dod yn aelodau cyfrifol a gwybodus o gymuned ehangach. Caiff y disgyblion eu hannog i ddysgu am ddiwylliannau eraill, i rannu eu diwylliant ac i ymfalchïo ynddo.

Trwy ystod eang o weithgareddau pwrpasol mae disgyblion yn cael cyfle i ddysgu sut i fyw mewn modd cynaliadwy. Mae'r cyngor eco yn cydweithio'n effeithiol gyda disgyblion ar draws yr ysgol i annog ail gylchu a lleihau gwastraff.

**Addysgu: Da**

Mae'r athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol dda ac adlewyrchir hyn yn y cynllunio manwl ar gyfer gwersi. Yn y rhan fwyaf o'r sesiynau, mae'r addysgu yn effeithiol. Yn y sesiynau hyn ceir paratoi manwl, trefniadaeth effeithiol, cyflwyniadau bywiog, holi treiddgar a chyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion weithio mewn parau a grwpiau. Mae'r berthynas waith gynnes sydd rhwng yr athrawon a'r disgyblion yn hybu rhyngweithio pwrpasol sy'n ysgogi'r dysgu. Defnyddir staff cymorth yn gynhyrchiol o fewn y dosbarthiadau ac mewn ystod o weithgareddau eraill ar draws yr ysgol.

Yn yr ychydig iawn o sesiynau lle mae'r addysgu yn llai effeithiol, mae'r cyflwyniadau yn rhy hir ac nid yw'r tasgau yn cynnig yr her briodol i ymestyn dysgu'r disgyblion.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer asesu, monitro a chofnodi cynnydd disgyblion. Caiff gwaith y disgyblion ei farcio'n rheolaidd. Mae'r athrawon yn cynnig adborth manwl ar lafar ac yn ysgrifenedig sy'n cyfeirio'r disgyblion i adnabod eu camau nesaf. Serch hynny, mae'r cyfleoedd iddynt weithredu ar wella eu gwaith eu hunain ac i fyfyrio ar eu cynnydd yn anwastad. Mae trefniadau addas i safoni a chymedroli asesiadau athrawon.

Mae'r adroddiadau i rieni yn cynnig gwybodaeth lawn ar gynnydd eu plant ac maent yn ateb y gofynion statudol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar ac mae trefniadau effeithiol i gefnogi iechyd a lles y disgyblion. Hyrwyddir ystod o fentrau llwyddiannus sy'n annog bwyta'n iach ac ymarfer y corff yn rheolaidd.

Mae darpariaeth effeithiol ar gyfer hybu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion. Mae'r sesiynau cyd-addoli a rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yr ysgol yn cyfrannu'n dda i'r meysydd hyn. Gwelir agwedd bositif at fod yn rhan o'r gymuned leol a thrwy weithgareddau elusennol caiff y disgyblion gyfle i gefnogi pobl o fewn eu cymuned leol a'r byd ehangach.

Mae gan yr ysgol bolisi a gweithdrefnau priodol ar gyfer diogelu ac nid ydynt yn destun pryder. Mae arweiniad clir i bob aelod o staff ac maent yn ymwybodol o'r gofynion.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau addas i adnabod a monitro disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae gan bob un gynllun addysg unigol sy'n cynnwys targedau clir ar y ffordd ymlaen. Maent yn cael eu hadolygu yn rheolaidd a'u diweddaru yn dilyn ymgynghoriad gyda'r disgyblion a'u rhieni. Mae'r ysgol yn nodi'r disgyblion mwy abl a thalentog a cheir enghreifftiau ohonynt yn cael eu herio'n effeithiol ond nid yw hon yn nodwedd gyson ar draws y cwricwlwm.

Mae'r trefniadau cyswllt effeithiol gydag ystod o wasanaethau cymorth, yn cynnwys seicolegydd addysg, nyrs ac athrawon arbenigol, yn sicrhau bod gwybodaeth ac arweiniad ar gael i ddisgyblion, staff a rhieni yn ôl yr angen.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol, hapus iawn gydag ethos teuluol. Mae’r cydweithio cadarn a geir rhwng holl staff yr ysgol a’r disgyblion yn creu amgylchedd dysgu cynnes a gweithgar. Caiff y disgyblion fynediad cyfartal i’r cwricwlwm ac i holl feysydd y ddarpariaeth. Rhoddir pwyslais clir ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth.

Mae’r adeilad yn cynnig ystod o ddosbarthiadau ac ardaloedd dysgu a gwneir defnydd llawn ohonynt i sbarduno ac i hybu profiadau dysgu'r disgyblion. Mae’r arddangosfeydd lliwgar a diddorol o gwmpas yr ysgol yn cynnig gwybodaeth i’r disgyblion ac yn rhoi cyfle iddynt ymfalchïo wrth ddangos eu gwaith i eraill. Mae’r staff a’r disgyblion yn gwneud defnydd da o’r ystod eang o adnoddau i gefnogi’r dysgu.

Mae’r ardaloedd allanol yn eang ond wedi eu penodi ar gyfer gwahanol weithgareddau sy’n cynnig amgylchedd deniadol i’r disgyblion. Mae ardal dysgu tu allan y Cyfnod Sylfaen yn cael ei defnyddio’n effeithiol ar gyfer datblygu medrau’r disgyblion ar draws y meysydd dysgu.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae’r pennaeth yn cynnig cyfeiriad strategol cadarn sy’n seiliedig ar wella safonau ac ansawdd y ddarpariaeth i ddisgyblion. Mae’r tîm dysgu yn cydweithio’n effeithiol i ddatblygu gweithgareddau a ffyrdd o ddysgu ac addysgu sy’n dylanwadu’n bositif ar gyflawniad disgyblion. Gwnânt ddefnydd effeithiol o ddadansoddiadau data i fesur cynnydd disgyblion ac i flaenoriaethu agweddau i dderbyn sylw pellach.

Mae cyfrifoldebau a rolau pob aelod o’r tîm addysgu wedi'u diffinio'n eglur gan gynnwys arwain a chefnogi meysydd cwricwlaidd a’r medrau. Mae'r holl staff yn ymroddedig i'w rôl wrth gyflawni amcanion yr ysgol.

Mae gan y corff llywodraethol ddealltwriaeth dda o sut mae'r ysgol yn perfformio o gymharu ag ysgolion tebyg. Trwy gasglu gwybodaeth byncIol, ymweliadau monitro a dadansoddi ystod eang o ddata maent yn herio a chefnogi’r ysgol er mwyn codi safonau ymhellach. Mae’r polisïau, dogfennau a gweithdrefnau statudol yn ateb y gofynion.

Mae’r ysgol wedi dewis a dethol nifer o flaengareddau lleol a chenedlaethol sy’n cyfrannu’n bositif at godi safonau. Maent yn cynnwys mentrau i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion ac ymestyn darpariaeth y Cyfnod Sylfaen ymhellach.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae’r prosesau hunanarfarnu a’r disgwyliadau uchel ymysg athrawon a’r llywodraethwyr yn cael dylanwad cadarnhaol ar hybu safonau uwch ar draws yr ysgol.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn eglur a dadansoddol. Defnyddir ystod eang o dystiolaeth i gefnogi'r barnau gan gynnwys data perfformiad, barn rhieni a disgyblion, monitro gwaith, arsylwi gwersi a barn swyddogion gwella'r awdurdod lleol.

Mae'r cynllun datblygu yn ddogfen weithredol ac mae'r blaenoriaethau yn cyd-fynd â'r materion a nodwyd yn yr hunanarfarniad. Gosodir targedau mesuradwy a chyllideb benodol i sicrhau gwelliant.

Mae'r broses o fonitro'r cwricwlwm a'r medrau yn cyfrannu'n gadarnhaol i'r broses o godi safonau. Rhoddir pwyslais priodol ar fonitro safonau yn ogystal â'r ddarpariaeth ac mae'r materion i'w datblygu yn cael eu gwerthuso'n ofalus gan y pennaeth a'r corff llywodraethol.

Mae'r ysgol yn datblygu nifer o gymunedau dysgu proffesiynol yn fewnol ac fel aelodau o glwstwr o ysgolion lleol. Mae hyn yn dylanwadu'n gadarnhaol ar arferion a safonau'r ysgol yn enwedig wrth ddatblygu medrau llythrennedd, lledaenu arfer dda o ran addysgu a dysgu, a hybu addysg lles.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol bartneriaethau cadarn iawn gyda'r rhieni a'r gymuned. Gwneir defnydd helaeth o arbenigeddau lleol a manteisir ar bob cyfle posibl i'w defnyddio er budd addysg y disgyblion, codi safonau a sicrhau amgylchedd ddysgu symbylus a diogel. Fel rhan o raglen sefydlog, gwneir defnydd adeiladol o gyfraniad unigolion o'r gymuned i hybu medrau darllen y disgyblion ac mae'r cinio misol i'r henoed yn codi eu hymwybyddiaeth o bwysigrwydd gofal tuag at eraill.

Mae gan yr ysgol ystod effeithiol o bartneriaid strategol gan gynnwys swyddogion gwella'r awdurdod lleol, arbenigwyr cefnogi disgyblion ac athrawon bro sy'n cynorthwyo'r ysgol i ddatblygu ymhellach.

Mae trefniadau pontio effeithiol ar gyfer plant sy'n trosglwyddo o'r cylch meithrin i'r ysgol gynradd ac i'r disgyblion sydd ar fin trosglwyddo i'r ysgol uwchradd. Mae'r trefniadau'n gymorth mawr i'r disgyblion ymgartrefu'n gyflym yn eu hamgylchedd newydd.

Ceir cysylltiadau cynhyrchiol gyda'r teulu o ysgolion lleol er mwyn strwythuro a gweithredu rhaglenni datblygiad proffesiynol pellach, rhannu arbenigedd a chymedroli gwaith diwedd cyfnod allweddol. Mae'r trefniadau i gydgyfrannu arian ac adnoddau gyda'r ardal yn hyrwyddo'r gweithgareddau hyn yn effeithiol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol wedi'i staffio'n briodol a gwneir defnydd da o brofiad ac arbenigedd yr athrawon i gyflwyno'r cwricwlwm. Rhoddir pwyslais mawr ar ddatblygiad proffesiynol parhaus y staff addysgu a chefnogi ac mae prosesau rheoli perfformiad priodol yn hybu hyn ymhellach. Mae'r athrawon a'r cymorthyddion dysgu yn cydweithio ac yn cefnogi ei gilydd yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn cwrdd â'r gofynion sy'n ymwneud â baich gwaith athrawon. Gwna'r athrawon ddefnydd effeithiol o'u hamser digyswllt ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu gwaith y disgyblion ac i arsylwi arfer dda.

Caiff yr adeilad a safle'r ysgol eu cadw a'u cynnal yn dda.  Mae'r ysgol yn buddsoddi mewn adnoddau pwrpasol er mwyn cynnal safonau addysg ac yn eu hadnewyddu yn ôl yr angen.  Fodd bynnag, nid yw'r llyfrgell wedi cael ei threfnu i hyrwyddo medrau darllen estynedig a medrau ymchwilio disgyblion yn ddigonol.

Mae'r corff llywodraethol a'r pennaeth yn cydweithio'n effeithlon wrth reoli'r cyllid.  Mae gweithdrefnau priodol ar gyfer sicrhau bod cyllid ac adnoddau yn cael eu darparu ar gyfer hybu datblygiad disgyblion a chefnogi'r blaenoriaethau a nodir yn y cynllun datblygu ysgol.

Mae'r deilliannau cadarnhaol a welir ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol yn dyst i'r gwerth da am arian a roddir gan yr ysgol.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Rhaid trin canlyniadau asesiadau athrawon gyda gofal oherwydd bod y niferoedd bychan o ddisgyblion mewn blwyddyn a'r canran uchel o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gallu effeithio ar berfformiad yr ysgol o un flwyddyn i'r llall.

Yn 2012, mae canran y disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen sy'n cyflawni'r lefelau disgwyliedig yn uwch na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion tebyg mewn datblygiad mathemategol a datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol. Mae cyflawniad disgyblion mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu ychydig yn is na'r teulu.

O gymharu ag ysgolion tebyg o ran y canran o ddisgyblion sydd â hawl i dderbyn cinio am ddim, mae'r canlyniadau yn gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf mewn datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol a datblygiad mathemategol ac yn y 25% isaf mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu.

Mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf, mae canlyniadau disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn uwch na'r teulu o ysgolion mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth. Maent yn fwy anwastad mewn Saesneg ac yn gyffredinol is na chyfartaleddau'r teulu.

O gymharu ag ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sydd â hawl i dderbyn cinio am ddim, mae'r canlyniadau yn gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf mewn mathemateg a gwyddoniaeth, y 50% uchaf mewn Cymraeg ac yn y 25% isaf mewn Saesneg yn y rhan fwyaf o flynyddoedd.

Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r deilliannau uwch ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2012 yn well na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion mewn datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol ond yn is yn y meysydd eraill. Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefelau uwch yn 2012 yn well na chyfartaleddau'r teulu mewn Cymraeg, Saesneg a mathemateg ond yn is mewn gwyddoniaeth. Gan eithrio mathemateg, mae'r canlyniadau yn y blynyddoedd blaenorol yn is ar draws y pynciau.

Nid oes patrwm cyson yn y gwahaniaeth rhwng canlyniadau bechgyn a merched. Er hyn, mae merched yn gyffredinol yn cyflawni'n well ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn arbennig ar y lefelau uwch. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni eu targedau. Oherwydd niferoedd bychan iawn, nid oes modd cymharu cyflawniad disgyblion sy'n hawlio cinio am ddim a'r rhai heb yr hawl.

Tros y pedair blynedd ddiwethaf, mae cyflawniad disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn eu medrau llafar a darllen Cymraeg yn cymharu'n ffafriol â'r teulu yn y mwyafrif o'r blynyddoedd. Mae medrau darllen a llafar Saesneg yn fwy anwastad. Mae medrau ysgrifennu Cymraeg a Saesneg y disgyblion yn is na'r teulu yn y rhan fwyaf o'r blynyddoedd.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Cwblhawyd 15 o holiaduron gan y rhieni. Mae pawb yn fodlon â'r ysgol. Maent yn dweud bod eu plant yn hoffi'r ysgol ac yn teimlo'n ddiogel yno. Dywedant fod ymddygiad y disgyblion yn dda, fod y disgyblion yn cael eu parchu a'u bod yn cael eu trin yn deg. Maent o'r farn fod yr addysgu yn dda a bod eu plant yn gwneud cynnydd priodol. Dywedant fod yr athrawon yn disgwyl i'w plant weithio'n galed a bod yr ysgol yn darparu cymorth ychwanegol i ddisgyblion ag unrhyw anghenion unigol penodol. Mae'r rhan fwyaf yn teimlo fod y gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae eu plant yn ei ddysgu yn yr ysgol. Maent o'r farn fod yr ysgol yn paratoi eu plant ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu haddysg. Teimlant fod eu plant yn cael eu hannog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. Maent yn derbyn gwybodaeth gyson am gynnydd eu plant ac yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â thrafod unrhyw beth gyda'r ysgol. Mae pawb o'r farn fod yr ysgol yn cynnig amrywiaeth dda o weithgareddau. Mae pawb hefyd o'r farn fod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

Mae'r ymatebion yn dangos lefel uchel o fodlonrwydd ymhlith rhieni sydd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer ysgolion cynradd.

**Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr**

Cwblhaodd 17 o ddisgyblion yr holiadur. Mae'r rhan fwyaf yn datgan eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a bod yr ysgol yn delio â bwlio'n dda. Mae pob disgybl yn nodi eu bod yn cael eu haddysgu i fod yn iach, ac mae'r rhan fwyaf yn dweud bod llawer o gyfleoedd iddynt wneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae'r rhan fwyaf o'r farn eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol ac mae pawb yn datgan bod athrawon yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. Mae pawb yn dweud eu bod yn gwybod â phwy i siarad os ydynt yn gofidio am rywbeth. Mae llawer yn credu bod gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella'u gwaith ysgol. Mae pawb o'r farn bod ganddynt ddigon o lyfrau ac offer i wneud eu gwaith. Mae'r rhan fwyaf o'r farn bod disgyblion yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac yn ystod yr egwyl ginio. Mae pawb yn cytuno bod disgyblion yn ymddwyn yn dda yn ystod gwersi.

Mae'r ymatebion yn cynnig darlun cadarnhaol sy'n cymharu'n dda gyda'r cyfartaleddau cenedlaethol ar gyfer ysgolion cynradd.

# Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Dorothy Morris | Arolygydd Cofnodol |
| Margaret Davies | Arolygydd Tîm |
| Ruth Rhydderch | Arolygydd Lleyg |
| Meriel Parry | Arolygydd Cymheiriaid |
| Eirwyn Griffiths | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |